Healthcare Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, {My} dentist, Kandy Lodge

29 Gorffennaf 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



Digidol ISBN 978-1-4734-3995-5


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 7

   Profiad y Claf ........ 7

   Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 10

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 13

   Ansawdd yr Amgylchedd ........ 15

6. Y Camau Nesaf ........ 17

   Atodiad A ........ 18

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o bractis deintyddol mydentist Kandy Lodge, Stryd Fawr, Rhiwabon, Wrecsam, LL14 6NH, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 29 Gorffennaf 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae practis deintyddol mydentist Kandy Lodge yn darparu gwasanaethau i oddeutu 3,000 o gleifion yn Rhiwabon ac ardal Wrecsam. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Kandy Lodge yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Cafodd y practis ei sefydlu'n wreiddiol ym 1984, ond mae dau gwmni wedi bod yn berchen ar y practis yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, a'r mwyaf diweddar ohonynt yw Integrated Dental Holdings (IDH), sy'n berchen ar y busnes ers mis Medi 2014. Mae IDH wedi mynd trwy broses o ail-frandio practisau deintyddol, gan gynnwys Kandy Lodge, o dan yr enw mydentist.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, dau hylenydd, wyth nyrs ddeintyddol (oedd yn cynnwys tair nyrs dan hyfforddiant ar adeg ein harolygiad), un nyrs arwain/derbynnydd, un derbynnydd, ac un rheolwr practis. Yn ogystal, roedd deintydd blwyddyn sylfaen (deintydd ar gam cyntaf cwrs ôl-radd) ar fin dechrau yno ym mis Medi 2015.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau cyffredinol
- Tynnu cen a sgleinio
- Llenwadau
- Coronau a phontydd
- Tynnu dannedd
- Dannedd gosod
- Gwynnu dannedd
- Deintyddiaeth gosmetig / ieuangu'r wyneb

## 4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut roedd practis deintyddol mydentist Kandy Lodge yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Roedd pob un o'r wyth claf a ymatebodd i holiaduron AGIC yn fodlon ar y deintyddion a'r staff ac yn ganmoliaethus ohonynt. Fodd bynnag, awgrymodd tri o'r cleifion fod angen gwella'r cyfleusterau yn yr ystafell aros ers i'r practis gael ei ail-frandio yn mydentist. Cytunodd y practis y byddai'n cyfleu sylwadau'r cleifion i IDH er mwyn iddynt eu hystyried.

Gwelsom anghysondebau rhwng y fersiynau Saesneg a Chymraeg o weithdrefnau cwyno'r practis. Felly rydym wedi cynghori'r practis i adolygu'r rhain, i sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG, sef y trefniadau ar gyfer ymateb i gwynion ynghylch gwasanaethau'r GIG.

Ar y cyfan, roedd y cyfleusterau clinigol, yr ardaloedd triniaeth, a'r systemau ar gyfer cynnal a chadw a gwirio'r offer yn dda iawn. Ac eithrio un darn o offer deintyddol a nodir yn y paragraff isod, roedd y cyfleusterau a gweithdrefnau dadheintio a rheoli heintiau yn rhagorol.

Fodd bynnag, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella mewn perthynas â’r offer llaw uwchsain, nad oeddent yn cael eu sterileiddio'n briodol rhwng cleifion. O ganlyniad, mae AGIC wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan y practis bod trefniadau dros dro wedi cael eu rhoi ar waith (i leihau'r risgiau) a bod offer llaw ychwanegol wedi cael eu prynu. Mae AGIC wedi derbyn sicrwydd digonol felly bod y risgiau i ddiogelwch cleifion wedi cael eu lleihau.

Roedd cofnodion cleifion dau o'r deintyddion o safon dda iawn ar y cyfan. Gwnaethom hysbysu'r practis o'r meysydd cadw cofnodion y gellid eu gwella gan y deintydd arall, a gwnaethant gytuno i weithredu ar y mater hwn.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol gan reolwr y practis a chan y tîm rheoli o fewn y sefydliad ehangach. Roedd polisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith, a gwelsom ethos cryf o ddysgu a datblygu, ac roedd staff yn cael amryw o gyfleoedd i wneud y gorau o'u perfformiad a chymhwysedd proffesiynol.

Mae Kandy Lodge yn bractis sydd wedi cael ei adeiladu i bwrpas ac, oherwydd y llawr daear a'r cyfleusterau parcio, gan gynnwys parcio i bobl anabl, roedd hygyrchedd yn dda ar y cyfan. Gwelsom fod safon y glendid yn dda.

Gwelsom fod cyfleusterau'r staff, y dderbynfa a lle ar gyfer storio yn gyfyngedig i bractis gyda phum ystafell driniaeth. Rydym wedi hysbysu'r practis y dylai adolygu cynllun y dderbynfa ar frys er mwyn cydymffurfio â rheoliadau'r gweithle.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Roedd pob un o'r wyth claf a ymatebodd i holiaduron AGIC yn fodlon ar y deintyddion a'r staff ac yn ganmoliaethus ohonynt. Fodd bynnag, awgrymodd tri o'r cleifion fod angen gwella'r cyfleusterau yn yr ystafell aros ers i'r practis gael ei ail-frandio yn mydentist.Cytunodd y practis y byddai'n cyfleu sylwadau'r cleifion i IDH er mwyn iddynt eu hystyried.**

**Gwelsom anghysondebau rhwng y fersiynau Saesneg a Chymraeg o weithdrefnau cwyno'r practis. Felly rydym wedi cynghori'r practis i adolygu'r rhain, i sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG, sef y trefniadau ar gyfer ymateb i gwynion ynghylch gwasanaethau'r GIG.**

Derbyniodd AGIC wyth holiadur wedi'u cwblhau gan gleifion yn ystod bore'r arolygiad. Roedd eu hymatebion yn dangos bod yr wybodaeth am agweddau allweddol ar y gwasanaeth ar gael iddynt, gan gynnwys gwybodaeth am eu triniaeth, sut i fynd at y gwasanaeth y tu allan i oriau, a sut i gwyno. Roedd nifer o gleifion wedi ychwanegu sylwadau canmoliaethus pellach fel *"gwasanaeth gwych", "bodlon 100% bob amser", "bob amser yn gyfeillgar a chymwynasgar".* Dywedodd dau glaf:

> *“Practis ardderchog, deintyddion ardderchog sy'n cael cefnogaeth gan dîm o staff cymorth medrus iawn.Diolch.”*

> *"Cyn ymuno â'r deintydd hwn roeddwn i'n nerfus iawn ynghylch dod.Nawr rwy'n teimlo y gallaf ymlacio mwy ac mae gen i lai o ofn nodwyddau."*

Yn ystod ein harsylwadau cyffredinol, gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig ddwyieithog Cymraeg/Saesneg yn cael ei harddangos yn amlwg yn y dderbynfa a'r ardaloedd aros.

Daeth y practis i feddiant IDH ym mis Medi 2014, a chafodd ei ail-frandio’n ddiweddar yn bractis mydentist. Gwnaeth tri o'r cleifion sylw ynghylch y cyfleusterau yn yr ystafell aros; er enghraifft, roeddent eisiau i'r teledu gael ei ddychwelyd. Awgrymodd un o'r cleifion y byddai cysylltiad diwifr yn helpu i ddiddanu oedolion a phlant, gan ychwanegu nad oedd yr ystafell aros yn addas ar gyfer plant bellach, a dywedodd un o'r cleifion nad oedd deunyddiau darllen ar gael i helpu pobl ymlacio. Gwnaethom siarad â'r practis a'r rheolwyr cymorth clinigol am y sylwadau hyn. Roedd deunyddiau darllen wedi cael eu darparu'n

ddiweddar (fel y gwelsom yn ystod yr arolygiad). Fodd bynnag, gwnaethant gytuno i gyfleu adborth gan y cleifion eraill i IDH er mwyn iddynt ei ystyried.

Gwelsom fod ffurflenni adborth ar gael i gleifion yn yr ystafell aros. Gwnaethom awgrymu y dylai'r ysgrifen ar y ffurflen fod mewn ffont mwy, i helpu pobl sydd â nam ar eu golwg, a chytunodd y practis i ystyried hyn. Roedd tystiolaeth bod adborth cleifion yn cael ei ystyried; er enghraifft, dywedodd rheolwr y practis wrthym fod unrhyw sylwadau o'r gwasanaeth adborth ar-lein yn cael eu hychwanegu fel eitem ar agenda cyfarfod nesaf y tîm, fel y gellir eu trafod a gweithredu yn eu sgil os yn bosibl.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y practis yn aros am daflenni gwybodaeth mydentist newydd. Nid oeddem yn gallu mynd at wybodaeth trwy wefan mydentist, ond gwelsom wybodaeth am y practis trwy gyfeiriad gwefan gwahanol, ond nid oedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth am y cwmni (IDH) sy'n rhedeg y gwasanaeth yn awr.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid diweddaru'r wybodaeth ar y wefan bresennol yn ddi-oed i sicrhau ei bod yn gywir ac yn cydymffurfio ag egwyddorion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu moesol.***

***Dylai taflenni gwybodaeth i gleifion fod ar gael cyn gynted â phosibl, eto i sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth gywir a chyfredol.***

Gwnaethom sylwi ar anghysondebau rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y weithdrefn gwyno. Roedd yr amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymdrin â chwynion yn wahanol yn y ddwy fersiwn ac roedd y fersiwn Gymraeg yn cynnwys paragraff ychwanegol am y sefydliadau eraill y gellid cysylltu â nhw. Roedd y fersiwn Gymraeg yn gyson â threfniadau 'Gweithio i Wella'[4] y GIG.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gwnaethom hysbysu'r practis y dylai adolygu ei weithdrefnau cwyno i sicrhau cysondeb a chyfieithu cywir rhwng y fersiynau Cymraeg a***

[4] 'Gweithio i Wella' yw trefniadau'r GIG ar gyfer ymdrin â chwynion yn ymwneud â gwasanaethau'r GIG ac ymateb iddynt. Mae'n cynnwys practisau deintyddol ac yn darparu'r amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion.

***Saesneg ac, i bobl sy'n derbyn triniaethau'r GIG, i gydymffurfio â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG.***

### *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Ar y cyfan, roedd y cyfleusterau clinigol, yr ardaloedd triniaeth, a'r systemau ar gyfer cynnal a chadw a gwirio'r offer yn dda iawn. Ac eithrio un darn o offer deintyddol a nodir yn y paragraff isod, roedd y cyfleusterau a gweithdrefnau dadheintio a rheoli heintiau yn rhagorol.**

**Fodd bynnag, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella mewn perthynas â'r offer llaw uwchsain, nad oeddent yn cael eu sterileiddio'n briodol rhwng cleifion. O ganlyniad, mae AGIC wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan y practis bod trefniadau dros dro wedi cael eu rhoi ar waith (i leihau'r risgiau) a bod offer llaw ychwanegol wedi cael eu prynu.Mae AGIC wedi derbyn sicrwydd digonol felly bod y risgiau i ddiogelwch cleifion wedi cael eu lleihau.**

**Roedd cofnodion cleifion dau o'r deintyddion o safon dda iawn ar y cyfan. Gwnaethom hysbysu'r practis o'r meysydd cadw cofnodion y gellid eu gwella gan y deintydd arall, a gwnaethant gytuno i weithredu ar y mater hwn.**

Gwelsom fod systemau clir ar waith i fonitro a chadw'r offer radiograffig mewn cyflwr da. Roedd pelydrau-X yn cael eu prosesu'n ddigidol, a gwelsom fod archwiliadau'n cael eu cynnal o ansawdd y delweddau a bod y practis yn gweithredu yn eu sgil. Cawsom weld tystysgrifau hyfforddiant oedd yn dangos bod y tri deintydd wedi derbyn hyfforddiant, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, o fewn y pum mlynedd diwethaf fel yr argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd systemau a gweithdrefnau cadarn ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi cynhwysfawr i ymateb i argyfyngau meddygol posibl. Yn ogystal â'r hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd blynyddol gorfodol a fynychwyd gan yr holl staff, roedd rheolwr y practis a'r hylenydd yn cynnal sesiynau hyfforddi mewnol bob tri mis yn seiliedig ar senarios arbennig. Roedd yr holl feddyginiaethau ac offer i'w defnyddio mewn argyfwng a welsom o fewn eu dyddiad defnyddio, ac roedd tystiolaeth bod y staff yn cynnal gwiriadau rheolaidd.

Roedd contractau ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei osod yn y cynwysyddion cywir, fesul lliw. Roedd y biniau gwastraff clinigol y tu allan i'r adeilad yn cael eu storio'n ddiogel.

Gwelsom fod cyfleusterau dadheintio a gweithdrefnau ysgrifenedig y practis yn rhagorol ac yn cyd-fynd â chanllawiau dadheintio mewn practisau deintyddol Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd ystafell ar wahân ar gyfer prosesu offer deintyddol oedd wedi cael eu defnyddio, a oedd yn cynnwys ffenestr i ystafell arall er mwyn prosesu a storio'r offer deintyddol glân/wedi'u sterileiddio. Gwelsom fod y bagiau oedd yn cynnwys offer deintyddol glân yn cynnwys y dyddiadau sterileiddio ac 'i'w defnyddio erbyn', sy'n arfer gorau.

Ar y cyfan, gwelsom fod pob ystafell driniaeth o safon ragorol, gydag ardaloedd oedd yn hawdd i'w glanhau ac ymylon wedi eu selio er mwyn atal llwch a baw rhag cronni.

Gwnaethom edrych ar yr offer deintyddol oedd yn cael eu defnyddio, a gwelsom y gellid sterileiddio'r blaenau sugno. Fodd bynnag, yn unol ag argymhelliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ar gyfer offer untro, cytunodd y staff i gael gwared ar y rhain ar ôl pob claf ac i gael blaenau sugno untro yn eu lle.

Er bod blaenau'r digennwr yn cael eu sterileiddio rhwng cleifion, nid oedd y practis yn sterileiddio'r offer llaw uwchsonig rhwng cleifion hefyd. Gan y gallai hyn fod wedi peri risg i ddiogelwch cleifion, gwnaethom ddweud wrth y practis am ein pryderon a chyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella. Ers hynny, mae AGIC wedi derbyn digon o sicrwydd bod trefniadau dros dro diogel wedi cael eu rhoi ar waith hyd nes bydd digon o offer llaw ychwanegol wedi eu derbyn i'w galluogi i gael eu sterileiddio rhwng cleifion.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf ar gyfer pob deintydd. Ar y cyfan, gwelsom fod safon cadw cofnodion gan ddau o'r deintyddion yn dda. O'r pum cofnod a archwiliwyd gennym, gwelsom fylchau yn y cofnodion lle nad oedd radiograffau wedi cael eu graddio ar y system gyfrifiadurol (er i ni weld bod y graddau wedi cael eu nodi yn y llyfr log archwiliadau). Gwnaethom gydnabod bod y practis wedi newid perchnogion ddwywaith yn y blynyddoedd diwethaf, gan arwain at newid y feddalwedd gyfrifiadurol dair gwaith. Oherwydd hynny, nid oedd yr holl wybodaeth wedi cael ei throsglwyddo i'r system ddiweddaraf eto.

Fodd bynnag, roedd anghysondebau yng nghofnodion cleifion un o'r deintyddion. Er enghraifft, o'r pum cofnod y gwnaethom edrych arnynt, nid oedd dau o'r hanesion meddygol wedi cael eu cofnodi ar y system, a oedd yn cynnwys un achos lle na ellid dod o hyd i'r ffurflen hanes meddygol o gwbl. Roedd dau achos lle byddai radiograffau adenfrath wedi bod yn briodol ond nad oeddent wedi cael eu cymryd yn y tair blynedd diwethaf. Codwyd y pryderon

hyn gyda'r rheolwr cymorth clinigol, a gytunodd i drafod y canfyddiadau hyn gyda'r deintydd dan sylw.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen ystyried y systemau sydd eu hangen i sicrhau bod safon cadw cofnodion yn gyson ymysg yr ymarferwyr deintyddol a bod gwybodaeth gyflawn ar gael yng nghofnodion cleifion.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol gan reolwr y practis a chan y sefydliad ehangach. Roedd polisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith, a gwelsom ethos cryf o ddysgu a datblygu, ac roedd staff yn cael amryw o gyfleoedd i wneud y gorau posibl o'u perfformiad a chymhwysedd proffesiynol.**

Ar adeg ein harolygiad, roedd y practis wedi bod yn eiddo i ddau gwmni mewn cyfnod cymharol fyr, y mwyaf diweddar ohonynt, IDH, ers deg mis. Er bod hwn wedi bod yn gyfnod heriol i'r staff, gwelsom dîm staff cryf a chydlynol oedd wedi addasu'n dda i'r newidiadau hyn yn ôl pob golwg.

Roedd systemau rheoli cadarn ar waith. Er enghraifft, roedd rheolwr y practis yn drefnus ac roedd wedi dirprwyo rhai o'r meysydd clinigol i nyrs arwain. Roedd y tîm o nyrsys deintyddol yn gweithio gyda gwahanol ddeintyddion ar system rota. Roedd y gwaith o gadeirio a chymryd cofnodion mewn cyfarfodydd tîm yn cael ei rannu rhwng y staff, a'r broses ddadheintio yn yr un modd, a oedd yn cael ei chyflawni rhyngddynt ddwywaith y dydd ar sail rota.

Roedd ethos cryf o ddysgu a datblygu. Roedd datblygiad aelodau staff yn cael ei fonitro fel rhan o'u harfarniad staff blynyddol, ac roedd cynllun datblygiad personol wedi cael ei gytuno. Gwnaethom edrych ar sampl o dystysgrifau hyfforddiant, a oedd yn dangos bod staff wedi cwblhau gwahanol fathau o hyfforddiant gorfodol ac arbenigol. Mae'r practis yn defnyddio Matrics Aeddfedrwydd Deoniaeth Cymru, sy'n ddull y gall practisau deintyddol ei ddefnyddio i fonitro safonau a pherfformiad cyffredinol. Yn y gorffennol, cyn dod i feddiant IDH, roedd y practis wedi cyflawni achrediad 'Denplan Gold' (marc ansawdd ychwanegol i ddeintyddion sy'n rhan o'r cynllun talu Denplan).

Gwnaethom ambell i awgrym ar sut i wella systemau'r practis. Gwelsom fod cofnodion cyfarfodydd staff yn anghyson ac nad oeddent bob amser yn dangos bod staff wedi dysgu o drafodaethau. Gan fod ffurflenni damweiniau'n cael eu ffeilio fel rhan o gofnodion y cleifion, nid oedd llwybr archwilio clir ar gyfer y mathau o ddigwyddiadau, ac o ganlyniad nid oedd yn bosibl lliniaru themâu cyffredin. Roedd pryderon anffurfiol yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd tîm, ond nid oedd cofnodion yn cael eu cadw wedyn, felly nid oedd yn bosibl nodi themâu cyffredin a gweithredu yn eu sgil. Felly cytunodd rheolwr y practis i ystyried dulliau o wella'r systemau hyn.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan un o'r deintyddion dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom drafod hyn â rheolwr y

practis, a gadarnhaodd fod cais wedi cael ei wneud am dystysgrif newydd gan y deintydd hwn ac, yn y dyfodol, y byddant yn sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd er mwyn cydymffurfio â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Nid yw'n orfodol i staff y practis dderbyn gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; fodd bynnag, mae'n ofynnol ar y deintydd sy'n cyflogi i wirio bod staff yn addas i'w cyflogi. Gwelsom ddogfennau oedd yn dangos bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eisoes ar gael ar gyfer yr holl aelodau eraill o staff sy'n gweithio yn y practis, felly gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer gorau.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Mae Kandy Lodge yn bractis a adeiladwyd i'r diben ac, oherwydd y llawr daear a chyfleusterau parcio, gan gynnwys parcio anabl, roedd hygyrchedd yn dda ar y cyfan. Gwelsom fod safon y glendid yn dda.**

**Roedd cyfleusterau'r staff, y dderbynfa a mannau storio yn gyfyngedig i bractis gyda phum ystafell driniaeth. Rydym wedi hysbysu'r practis y dylai adolygu cynllun y dderbynfa yn ddi-oed er mwyn cydymffurfio â rheoliadau'r gweithle.**

Mae Kandy Lodge yn bractis deintyddol un llawr a adeiladwyd i'r diben. Mae maes parcio staff a chleifion y tu allan i'r adeilad, sy'n cynnwys tri lle penodol ar gyfer parcio anabl. Mae un gris yn y porth, a gwelsom fod ramp symudol yn yr ardal hon yr oedd y derbynwyr yn gallu ei weld hefyd.

Roedd yr ystafell aros yn ddigonol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth, er i ni gael ein hysbysu y gall fod yn brysur weithiau. Gwnaethom atgoffa'r practis i ystyried sylwadau'r cleifion am yr ystafell aros, fel y trafodwyd yn adran Ansawdd Profiad y Claf yr adroddiad hwn (tudalen 6). Gwelsom fod yr arwyddion yn yr adeilad yn dda iawn, a oedd yn cynnwys hysbysiadau gyda symbolau perthnasol i gyfarwyddo neu rybuddio ymwelwyr.

Roedd cyfleusterau’r staff yn cynnwys swyddfa rheolwr y practis a chegin fach ac ardal eistedd. Gwelsom fod y staff yn defnyddio'r ystafell aros i fwyta eu cinio, pan oedd y ddeintyddfa ar gau am awr. Roedd dau doiled yn y practis, gan gynnwys toiled gyda mynediad i bobl anabl, at ddefnydd y staff a'r cleifion. Gwelsom fod cypyrddau personol staff yn cael eu cadw yn y toiled anabl. Roedd digon o le yn dal i fod yn yr ystafell hon ar gyfer cadair olwyn, a gan nad oedd unrhyw gyfleusterau storio addas eraill ar gael ac mai dim ond cyn neu ar ôl amser agor y ddeintyddfa roedd staff yn mynd at eu cypyrddau personol, gwnaethom gydnabod mai hwn oedd yr unig opsiwn addas.

Gwnaethom godi pryderon ynglŷn â'r dderbynfa, a oedd yn cael ei rhannu gan ddau aelod o staff. Roedd yr ardal hon yn fach, a phan oedd y ddau aelod o staff yn gweithio yno, gwelsom fod un o'r aelodau o staff yn cael ei gau i mewn gan y llall. Cawsom wybod bod yr ardal hon yn fwy yn flaenorol ond ei bod wedi cael ei haddasu gan IDH y llynedd. Rydym wedi hysbysu'r practis y dylai adolygu cynllun y dderbynfa’n ddi-oed er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â rheoliadau'r gweithle ac y dylid ystyried gweithdrefnau argyfwng megis gwacáu adeilad mewn tân.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid adolygu cynllun y dderbynfa yn ddi-oed er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â rheoliadau megis Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos) 1992.***

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Gellir gweld manylion hwn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd practis deintyddol mydentist Kandy Lodge yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: mydentist Kandy Lodge, Stryd Fawr, Rhiwabon, Wrecsam

## Dyddiad yr arolygiad: 29 Gorffennaf 2015

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 8 | ***Dylid diweddaru'r wybodaeth ar y wefan bresennol yn ddi-oed i sicrhau ei bod yn gywir ac yn cydymffurfio ag egwyddorion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu moesol.*** <br><br> ***Dylai taflenni gwybodaeth i gleifion fod ar gael cyn gynted â phosibl, eto i sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth gywir a chyfredol.*** <br><br> [Safon Iechyd a Gofal 3.2] | Rydym wrthi'n dileu hen wefan y practis sy'n cynnwys yr wybodaeth anghywir. <br><br> Mae manylion cywir ar wefan mydentist, sy'n bodloni'r holl ofynion https://www.mydentist.co.uk/dentists/practices/wales/wrexham/wrexham/high-street <br><br> Mae taflenni gwybodaeth i gleifion wedi cael eu harchebu fel rhan o ail-frandio'r practis, ac mae gennym ddyddiad arfaethedig ar gyfer eu derbyn. | Tîm Cydymffurfio/TG <br><br> Yr Adran Farchnata | 20 Medi <br><br> 20 Medi |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 8 | ***Gwnaethom hysbysu'r practis y dylai adolygu ei weithdrefnau cwyno i sicrhau cysondeb a chyfieithu cywir rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg ac, i bobl sy'n derbyn triniaethau'r GIG, i gydymffurfio â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG.***<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 3.2 a 6.3] | Bydd mydentist yn adolygu'r cod ymarfer mewn perthynas â gweithdrefnau a phosteri ac yn sicrhau ei fod yn gywir er mwyn cydymffurfio â 'Gweithio i Wella' a rheoliadau deintyddiaeth breifat. Unwaith y bydd wedi cael ei adolygu, byddwn yn ei anfon at bob practis yng Nghymru. | Amanda Codrington / Tîm Gofal Cwsmeriaid | 4 Medi |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 12 | ***Mae angen ystyried y systemau sydd eu hangen i sicrhau bod safon cadw cofnodion yn gyson ymysg yr ymarferwyr deintyddol a bod gwybodaeth gyflawn ar gael yng nghofnodion cleifion.***<br><br>[Safon Iechyd a Gofal 3.5] | Mae archwiliadau diwethaf y cardiau cofnodion wedi cael eu hadolygu ac wedi canfod problemau sy'n ymwneud â chadw cofnodion. Mae'r rheolwr cymorth clinigol wedi mynychu'r practis ers hynny ac wedi adolygu arwyddion hanfodol ac archwiliadau gyda'r clinigwyr ac wedi trafod protocolau cadw cofnodion gyda nhw. Rydym wedi trefnu i reolwr y practis gynnal archwiliadau cadw cofnodion bob mis, a bydd y rheolwr cymorth clinigol yn eu hadolygu. Mae ymweliad wedi cael ei drefnu i'r rheolwr cymorth clinigol ym mis Hydref, ond bydd yn mynychu cyn hynny os bydd yr archwiliadau misol yn canfod unrhyw broblemau. | Rheolwr y practis / Rheolwr cymorth clinigol / Clinigwyr | Cyfarfod adolygu mis Hydref |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | Dd/B | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| 15 | ***Dylid adolygu cynllun y dderbynfa yn ddi-oed er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â rheoliadau megis Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos) 1992.***<br>[Safon Iechyd a Gofal 2.1] | Mae'r tîm iechyd a diogelwch yn rhoi cymorth i reolwr y practis gyda'r mater hwn. Mae trefniadau wedi cael eu gwneud i'n rheolwr iechyd a diogelwch gyfarfod â'r rheolwr datblygu ardal a rheolwr y practis i adolygu cynllun y dderbynfa a gwneud argymhellion yn unol â rheoliadau'r gweithle. Yn dilyn yr ymweliad hwn, bydd y tîm iechyd a diogelwch yn rhoi cymorth i'r Adran Cyfleusterau ddilyn y camau gweithredu angenrheidiol.<br>Ar hyn o bryd, mae'r busnes yn rhoi prawf ar broses newydd ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau, ac mae'r practis wedi cael gwahoddiad i fod yn rhan o'r prawf hwn. | Tîm iechyd a diogelwch / Rheolwr y practis / Rheolwr ardal / Cyfleusterau | Trefnwyd cyfarfod ar 5 Medi. |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):...Helen Clee...........................................................................**

**Teitl: ...Rheolwr y Practis.................................................................**

**Dyddiad: .....25/8/15...............................................................................**